***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 669

# Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbedion) (Cymru) 2004

**Enwi, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbedion) (Cymru) 2004.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Deddf 1967" ("*the 1967 Act*") yw Deddf Diwygio Cyfraith Prydlesi 1967(**1**);

ystyr "Deddf 1985" ("*the 1985 Act*") yw Deddf Landlord a Thenant 1985(**2**);

ystyr "Deddf 1987" ("*the 1987 Act*") yw Deddf Landlord a Thenant 1987(**3**));

ystyr "Deddf 1993" ("*the 1993 Act*") yw Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993(**4**);

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Tai 1996(**5**));

ystyr "TPL" ("*LVT*") yw tribiwnlys prisio lesddaliadau;

mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni, oni nodir yn wahanol, yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 ac Atodlenni iddi; ac

mae unrhyw gyfeiriad at ddiddymiad yn gyfeiriad at ddiddymiad a wneir gan adran 180 ac Atodlen 14.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 30 Mawrth 2004**

**2.** Daw darpariaethau canlynol i rym ar 30 Mawrth 2004 —

(a) adrannau 71 i 73, 75 i 77, 79, 81 i 83 , 85 i 91, 93 i 103, 105 i 109, 111 i 113, 159, 163, 173, Atodlenni 6 a 7;

(b) adrannau 74, 78, 80, 84, 92, 110, 174 ac Atodlen 12 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym; ac

(c) yn ddarostyngedig i'r arbedion yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn —

(i) adrannau 148, 149, 150, 155, 157 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau 8 i 13 o Atodlen 10, 158, 175, 176 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau 1 i 15 o Atodlen 13, Atodlen 9, paragraffau 8 i 13 o Atodlen 10, Atodlen 11 a pharagraffau 1 i 15 o Atodlen 13;

(**1**) 1967 p.88.
(**2**) 1985 p.70.
(**3**) 1987 p.31.
(**4**) 1993 p.28.
(**5**) 1996 p.52.

(ii) is-adrannau (1) i (5) o adran 172 ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â chymhwyso i'r Goron adrannau 152 i 154, 164 i 171, paragraffau 1 i 7 o Atodlen 10 a pharagraff 16 o Atodlen 13;

(iii) is-adran (6) o adran 172 ac eithrio i'r graddau y mae'r amnewidiadau a wnaed gan yr is-adran honno'n ymwneud ag adrannau 42A a 42B o Ddeddf 1987;

(iv) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 180 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diddymiadau yn Atodlen 14 a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;

(ch) yn ddarostyngedig i is-baragraffau (i) i (vi), adran 151 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym —

(i) mewn perthynas ag unrhyw achos y mae is-baragraff (ii), (iii), (iv) neu (vi) yn gymwys iddo, ni fydd unrhyw effaith i'r diwygiad a wnaed gan adran 151 a bydd Gorchymyn Taliadau Gwasanaeth (Amcangyfrifon ac Ymgynghori) 1988(**6**) yn parhau'n gymwys;

(ii) mae'r is-baragraff hwn yn gymwys lle mae'r gwaith sydd yn gymwys wedi dechrau cyn 31 Mawrth 2004;

(iii) mae'r is-baragraff hwn yn gymwys lle mae'r landlord wedi rhoi neu arddangos yr hysbysiad angenrheidiol o dan adran 20 o Deddf 1985, mewn perthynas â gwaith sydd yn gymwys, cyn 31 Mawrth 2004;

(iv) mae'r is-baragraff hwn yn gymwys lle, mewn perthynas â gwaith sydd yn gymwys y mae is-baragraff (v) yn gymwys iddo, mae'r landlord wedi rhoi hysbysiad yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yn unol â Rheoliadau Contractau Gweithfeydd Cyhoeddus 1991(**7**), Rheoliadau Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus 1993(**8**) neu Reoliadau Contractau Cyflenwi Cyhoeddus 1995(**9**) cyn 31 Mawrth 2004;

(v) mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i waith sydd yn gymwys a wneir o dan gontract —

(a) y bwriedir ei wneud ar neu ar ôl 31 Mawrth 2004; ac

(b) sydd am gyfnod o ddeuddeg mis neu'n llai;

(vi) mae'r is-baragraff hwn yn gymwys lle, o dan gytundeb a wneir gan neu ar ran landlord neu uwch landlord, cyn 31 Mawrth 2004, mae gwaith sydd yn gymwys yn cael ei wneud ar unrhyw amser yn y cyfnod yn dechrau ar y dyddiad hwnnw ac yn dod i ben ddau fis ar ôl y dyddiad hwnnw.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**10**))

*John Marek*
9 Mawrth 2004 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) O.S. 1988/1285.
(**7**) O.S. 1991/2680, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn gymwys i'r Rheoliadau hyn.
(**8**) O.S. 1993/3228, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn gymwys i'r Gorchymyn hwn.
(**9**) O.S. 1995/201, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn gymwys i'r Gorchymyn hwn.
(**10**) 1998 p.38.